

## AWBREY, (neu AUBREY), WILLIAM (c. 1529-1595), gwr o'r gyfraith sifil.

**Enw:** William Awbrey

**Dyddiad geni:** c. 1529

**Dyddiad marw:** 1595

**Rhiant:** Thomas Aubrey

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** gwr o'r gyfraith sifil

**Maes gweithgaredd:** Cyfraith; Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil

**Awdur:** Arthur Herbert Dodd

Ganwyd yn Cantref, Brycheiniog, mab Thomas Awbrey, ac yn disgyn o hen deulu ym Mrycheiniog. Dywedir iddo gael ei addysg yn Christ College, Aberhonddu, i gychwyn. Aeth i Rydychen a graddio yn B.C.L. yn 1549, ac yn D.C.L. yn 1554 a'i ddewis yn gymrawd yng ngholegau All Souls a Jesus ac yn bennaeth New Inn Hall. Fe'i gwnaethpwyd yn athro 'Regius' y Gyfraith Sifil gan y frenhines Mari; nid oes, y mae'n debyg, sail i dybiaeth Strype (*Cranmer*, t. 576) iddo golli ei swydd am beidio cydymffurfio. Caniatodd Elisabeth iddo drosglwyddo'r swydd i [John Griffith \(fl. 1560\)](#), ac o hynny ymlaen ymroddodd Awbrey i'w waith ymarferol fel gwr y gyfraith yn y llysoedd gwladol ac eglwysig yn rhinwedd ei swyddi fel ' Master in Chancery ' (c. 1555), ' Master of Requests ' (1590), a phleidiwr yn y ' Court of Arches ' a ' Judge of Audience ' yn Llys Caergaint (c. 1592).

Mewn materion eglwysig defnyddiodd ei ysgolheictod yn drwm yn y cyrch yn erbyn syniadau'r Piwritaniaid a'r Browniaid yn yr Eglwys a'r brifysgol (1587-90), bu'n aelod o gomisiynau a fu'n delio ag afreoleidd-dra yn esgobaeth Tyddewi (1581) ac yn ceisio darganfod awdur y traethodau Marprelate (1589-90), a bu iddo ran yng nghondemnio [John Penry](#) yn 1593 - yr oedd [Penry](#) yn perthyn iddo o bell; ymgynghorodd Grindal ag ef ar fater gwella'r llysoedd eglwysig yn archesgobaeth Caergaint, a phan gymerwyd swydd yr archesgob hwnnw oddi arno gwnaethpwyd Awbrey yn gyd-weinydd (1577) ac wedyn yn unig ficer-cyffredinol (1582); pan oedd Whitgift yn archesgob cadwodd Awbrey 'r swydd ficer-cyffredinol (eithr â llai o awdurdod ganddo) ac yn rhinwedd y swydd bu'n abl i ddangos llawer o ffafrau i'w gyd- Gymry. Ym maes cyfraith gydwladol bu Awbrey yn eistedd ar y comisiwn (1571) a ddyfarnodd y gellid dwyn esgob Ross, llysgennad Mari frenhines y Sgotiaid, i lysoedd cyfraith Lloegr i ateb am ei gynllwynion yn erbyn Elisabeth. Bu pwysigrwydd cydwladol i rai o ddyfarniadau Awbrey ar faterion cyfraith y môr, yn arbennig felly ar rai cwestiynau a oedd yn codi oherwydd y rhyfel ar y môr rhwng Lloegr a Sbaen; bu â rhan hefyd yn yr ymgyrch i ddifodi môr-ladrad ar lannau môr Cymru, ac fe'i cyflogwyd yn breifat - er lles mawr iddynt - gan y ' Merchant Adventurers.'

Bu galw arno i ddyfarnu ar gwestiynau ynglyn ag awdurdod cyfraith Lloegr yng Nghymru, Iwerddon, a'r Channel Islands, a daethpwyd ag ef i gyswllt agosach â gwleidyddiaeth pan oedd yn aelod o gomisiwn yr archesgob Parker a farnodd fod priodas Lady Catherine Grey â Hertford yn anghyfreithlon (1552) - achos yr oedd a fynnai â chwestiwn esgyniad i'r orsedd; a thrachefn pan aeth ei berthynas a'i noddwr [Henry Herbert, ail iarll Penfro](#), yn rhinwedd ei swydd fel prif arweinydd cyrch milwrol y frenhines Mari ar Ffrainc, ag Awbrey gydag ef yno i wasanaethu fel barnwr ('Judge Advocate') (1557); ac yn yr amrywiol betisiynau a chwestiynau cyfreithiol a anfonwyd iddo fel ' Master of Requests ' gan [Burghley](#) a'r Cyfrin Gyngor.

Yr oedd Cymry eraill o gyfreithwyr yn cydeistedd ag ef pan oeddid yn dyfarnu ar rai o'r materion cyfreithiol pwysicaf - Cymry fel [Dr. Thomas Yale](#), [David Lewis](#), a Henry Jones (bu farw 1592), rheithor Llanrwst (1554) a Llansannan (1561), a chylch-ganon Llanelwy (1560). Bu Awbrey 'n A.S. dros Gaerfyrddin (1554) ac Aberhonddu (1558), yn ynad heddwch ac yn siryf (1545) dros Frycheiniog, ac yn aelod o Gyngor y Gororau (1586). Daeth i feddu ystadau mawrion yn sir Frycheiniog a manau eraill yn Ne Cymru - trwy bryniant a thrwy roddion brenhinol - a byddai'n ymweld â hwy o bryd i bryd 'to make merye with his frendes' (*Stradling Correspondence*, tt. 26, 312). Dywedir iddo farw yn werth £2,500 y flwyddyn ond collwyd y rhan fwyaf o'r eiddo i'w etifeddion gan ysgutor twyllodrus. Yr oedd yn berthynas ac yn gymydog i [John Dee](#) ac yn ysgrifennu ato. Fe'i claddwyd yn (yr hen) S. Paul's lle yr oedd iddo gofadail yn ei ddangos wedi ei amgylchynu gan ei dri mab (a dalodd am y gofadail) a'i chwe merch - y naw yn penlinio - ac yn ei ddisgrifio fel hyn: 'a man of exquisite erudition, singular prudence, and great courtesy.'

### [JOHN AUBREY \(1626 - 1697\), hynafiaethydd](#)

Gorwyr William Aubrey, a etifeddodd (ar ôl ei hendaidd) hawliau ar lawer o diroedd yn sir Frycheiniog - hawliau a olygodd iddo lawer o gyfreithio ac o gost ond a ddaeth ag ef yn ôl i Gymru, ac felly i gymryd diddordeb yn hynafiaethau'r wlad.

## Awdur

Yr Athro Emeritus Arthur Herbert Dodd, (1891 - 1975)

## Ffynonellau

*Oxford Dictionary of National Biography*, a'r gweithiau a enwir yno

*Calendar of State Papers, Domestic Series*, Mary and Eliz.

*Acts of the Privy Council of England*, 1571-1593

*Reports of the Historical Manuscripts Commission*, Cecil

John Strype, *Annals and Lives of the Primates of Elizabeth's Reign*, III, ii, 122

John Strype, *Historical collections of the life and acts of the Right Reverend Father in God, John Aylmer, Lord Bp. of London in the reign of Queen Elizabeth* (London 1821)

John Strype, *Memorials of the most reverend Father in God, Thomas Cranmer, sometime Lord Archbishop of Canterbury. Wherein the history of the Church, and the reformation of it, during the primacy of the said archbishop, are greatly illustrated; and many singular matters relating thereunto, now first published. In three books. Collected chiefly from records, registers, authentick letters, and other original manuscripts* (1694)

John Strype, *The life and acts of Matthew Parker the first archbishop of Canterbury in the reign of Queen Elizabeth* (1711)

John Strype, *The history of the life and acts of the Most reverend father in God, Edmund Grindal, the first bishop of London, and the second archbishop of York and Canterbury successively, in the reign of Q. Elizabeth: ... To which is added, an appendix of original MSS. Faithfully transcribed out of the best archives; whereunto reference is made in the history* (1710)

John Strype, *The life and acts of ... John Whitgift ... Archbishop of Canterbury ... with a large Appendix of ... papers, etc.* (1718)

Theophilus Jones, Edwin Davies, Joseph Russell Bailey, *History of the County of Brecknock*, iv, 40-3, 277, 285

A. Peel, *The Notebook of John Penry, 1593* (Llundain 1944), vii

W. R. Williams, *The parliamentary history of the principality of Wales, from the earliest times to the present day, 1541-1895* (Brecknock 1895), 21-3, 51

Aubrey, *Brief Lives a selection based upon existing comtemporary portraits* (1949), 25-7, 187

*Llawysgrifau Penlle'r gaer yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*, B, parcel 1, 20-21

*Plymouth deeds yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*, 489

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [William Aubrey](#)

## Delweddau

National Portrait Gallery: [NPG D25378: William Aubrey](#)

National Portrait Gallery: [NPG D1005: Monument to William Aubrey](#)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: [316737614](#)

Wikidata: [Q8004673](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Evch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

